## ANGHENION CORONAFIRWS
## CORONAVIRUS REQUIREMENTS

Rhaid i fynychwyr (16 mlwydd oed neu hŷn) ddarparu tystiolaeth o un o'r canlynol:

- **Darparu tystiolaeth eich bod wedi'ch brechu'n llawn (dau frechiad sydd wedi'u derbyn 14 diwrnod cyn y digwyddiad).** Defnyddiwch Bàs Covid y GIG i brofi hyn (isod)

NEU

- **Ddarparu tystiolaeth eich bod wedi derbyn Prawf Llif Unffordd y GIG sy'n negyddol o fewn 48 awr cyn y digwyddiad,** rhaid rhoi gwybod am brofion llif unffordd I https://www.gov.uk/report-covid19-result cyn cyrraedd.

Anfonwch gopi ciplun neu allbrint o'ch pàs brechlyn neu'ch prawf llif unffordd trwy e-bost neu neges destun.

Bydd rhaid ichi wisgo masg wyneb y tu mewn i adeiladau maes y sioe.

**PEIDIWCH Â DOD I'R** digwyddiad os oes gennych chi neu unrhyw un yn eich cartref symptomau neu'n profi'n gadarnhaol am Goronafeirws.

Rhaid i bob un mynychwr gydymffurfio â Rheoliadau Covid Llywodraeth Cymru

**Sut mae profi fy Statws Brechu?**
Gellir profi statws brechu trwy ddefnyddio Pàs Covid y GIG, dilynwch y cyfarwyddiadau ar y wefan (https://gov.wales/get-nhs-covid-pass-show-your-vaccination-status-travel) a byddwn yn gofyn i bob mynychwr a frechwyd ddwywaith ddefnyddio hyn fel prawf i gael mynediad.

Rydym yn argymell eich bod yn lawrlwytho'ch pàs i'ch ffôn ac yn printio copi. (Sylwch y gall ddweud 'Valid in England' – ond fe wnawn ni dderbyn hyn) Rydym yn gwybod bod yna fathau eraill o ardystiad brechu ar gael ond rydym ond yn derbyn y rhai a nodwyd uchod. Os na ellwch chi ddarparu un o'r rhain bydd rhaid ichi ddarparu prawf llif unffordd negyddol (manylion isod).

Dylech ond gofyn am Bàs COVID papur os ydych yn methu defnyddio Pàs Covid digidol y GIG. Ffoniwch 0300 303 5667 i ofyn am Bàs COVID.

Sylwch os gwelwch yn dda: Fe all gymryd hyd at 10 diwrnod gwaith i dystysgrif gyrraedd trwy'r post. Ni ellir rhoi'r un cais ar lwybr danfon carlam ac ni ellir casglu tystysgrifau.

**Sut mae Cael Prawf?**
Gellwch gael profion llif unffordd yn rhwydd oddi ar wefan y GIG i'w danfon i'ch cartref https://www.gov.uk/order-coronavirus-rapid-lateral-flow-tests neu gellwch eu casglu o'ch fferyllfa leol.

Ar ôl cwblhau'r prawf mae'n **RHAID** ichi roi gwybod beth yw eich canlyniad i'r GIG: https://www.gov.uk/report-covid19-result. Mae hyn er mwyn ichi allu derbyn neges destun neu e-bost cadarnhau neu ddiweddariad i'ch ap GIG. Mae canlyniad prawf llif unffordd yn ddilys am 48 awr, felly rydym yn cynghori i'r prawf gael ei wneud y noson cyn y digwyddiad.

**Cyrraedd Maes y Sioe**
Ar ôl cyrraedd fynedfa i Faes y Sioe, cewch eich cyfarch gan steward, a fydd yn casglu'r wybodaeth tracio ac olrhain angenrheidiol trwy wirio enwau, cyfeiriadau a manylion cyswllt pob un o'r mynychwyr sydd yn y cerbyd.

Ar yr un pryd, byddir yn gofyn i bob un mynychwr ddarparu tystiolaeth o Bàs Covid neu brawf o Brawf Covid negyddol.